COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 26 EBRILL 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | SK Dendy |
| MJ Kearn | RMI Shaw | JC Spanswick | RME Stirman |
| JH Tildesley MBE | KJ Watts | CA Webster | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DRW Lewis, JE Lewis, T Thomas a/ac MC Voisey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Hayley Kemp | Prif Swyddog Cynllunio |
| Ingrid Iekaj | Cyfreithiwr Dan Hyforddiant |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Kwaku Opoku-Addo | Arweinydd y Tîm – Polisi, Datblygu a Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

107. DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y Buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd C Webster fuddiant personol yn eitem agenda Cais Cynllunio P/17/910/FUL oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeisydd.

Bu i'r Cyng. RMI Shaw ddatgan buddiant personol fel Cynghorydd Cymuned Cyngor Cymuned Cwm Garw ond nid yw'n rhan o drafodaethau eu materion cynllunio.

Datganodd MJ Kearn fuddiant a fyddai'n effeithio ar eitem ar yr agenda gan ei fod eisoes wedi gwneud penderfyniad ynghylch y cais. Gadawodd y Cynghorydd Kearn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hwn.

108. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cadarnhau dyddiad dydd Mercher 6 Mehefin 2018 ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig yn y cyfarfod neu ei nodi cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd.

109. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau ar 15 Mawrth 2018, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

110. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd siaradwyr cyhoeddus ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heddiw.

111. DALEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Dalen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a gallu ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu cynnwys.

112. P/17/1073/FUL – TIR ODDI AR ALL SAINTS WAY PENYFAI CF31 4BT

PENDERFYNWYD: GORHIRIO'R cais er mwyn rhoi amser i'r datblygwr gyflwyno rhagor o wybodaeth ac eglurdeb ynghylch y lefelau a'r pellteroedd rhwng safle'r cais (ffordd fynediad) a'r eiddo presennol, ynghyd ag ymgynghoriad arall.

113. P/17/910/FUL – GYFOCHR Â RHIF 1, DANYGRAIG AVENUE PORTHCAWL CF36 5AA

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais canlynol yn ddarostyngedig i'r Amodau sydd yn Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau:-

Cynnig

Tŷ sengl pedair ystafell wely a mynediad

Ychwanegwyd yr amod 10 canlynol:

10 Crëir y maes parcio a gymeradwyir yma mewn deunyddiau parhaol cyn cychwyn parcio yno ac fe'i cedwir at ddibenion parcio yn barhaus wedi hynny.

Rheswm: Buddiannau'r briffordd a diogelwch cerddwyr.

114. P/17/816/FUL – CANOLFAN ARDDIO'R PIL, 2 HEOL MOSTYN, Y PIL CF33 6BJ

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais canlynol yn amodol ar yr Amodau sydd yn Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau:-

Cynnig

Ailddatblygu ac estyn er mwyn gwneud caffi, bwyty, siop cynnyrch fferm, cegin, toiledau a dwy uned fanwerthu consesiynau.

115. APELIADAU

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu adroddiad ar yr apeliadau a dderbyniwyd ac y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: (1) Y nodir yr apeliadau canlynol a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf :-

Rhif Côd — Testun yr Apêl

A/18/3197583 (1821) Trosi'r adeilad allanol presennol yn 1 llety gwyliau gosod gydag addasiadau allanol cysylltiedig (ail-gyflwyniad): The Coppings, Bryncethin, Pen-y-bont ar Ogwr

A/18/3197583 (1822) Annedd sengl dau lawr, dwy ystafell wely (ail-gyflwyno apêl a wrthodwyd yn flaenorol): 2 Heol y Berllan, Y Pil, Pen-y-bont ar Ogwr

A/18/3197617 (1823) Cynnwys tir amaeth yng nghwrtil yr annedd: Tir y tu cefn i 51 Stryd Fawr, Trelales

A/18/3197606 (1824) Cynnwys tir amaeth yng nghwrtil yr annedd: Tir y tu cefn i 53 Stryd Fawr, Trelales

A/18/3197570 (1825) Cynnwys tir amaeth yng nghwrtil yr annedd: Tir y tu cefn i 55 Stryd Fawr, Trelales

A/18/317616 (1826) Codi 3 annedd sengl a gwaith cysylltiedig: Tir cyfagos i Tŷ Gwyn, Heol y Graig, Porthcawl

A/18/3198111 (1827) Dwy garafán sipsiwn preswyl ynghyd â chodi ystafell ddydd/gwaith tŷ, dwy garafán deithiol a symud y ffordd fynediad i gerbydau: tir yng nghyn-faes chwarae ffordd fynediad, Fountain Terrace, Abercynffig.

(2) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r Apêl canlynol, wedi cyfarwyddo y dylid CANIATÁU yr Apêl canlynol YN DDAROSTYNGEDIG I AMODAU:

Rhif Cod — Testun yr Apêl

A/17/3186793 (1815) Defnyddio'r tir ar gyfer gosod cartrefi symudol at ddibenion preswyl: Tir yn llynnoedd Minffrwd, Rhiwceiliog, Pencoed

(3) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r Apêl canlynol, wedi cyfarwyddo ei WRTHOD:

Rhif Cod — Testun yr Apêl

A/17/3187606 (1818) Cynnig cynelau cŵn a thai cathod ac annedd dros dro: Fferm Tŷ Risha, Pen y Cae, Penyfai

116. COFNOD HYFFORDDI

Adroddodd y Rheolwr Grŵp Datblygu ar gofnod hyfforddi wedi ei ddiweddaru.

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

117. EITEMAU BRYS

Nid oedd materion brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:25